




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Mae'r daflen hon yn un **hawdd ei deall**
gan Lywodraeth Cymru



Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cyfraith newydd i wella iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd y gyfraith newydd yn gwneud 4 peth gwahanol.

Bydd **y rhan gyntaf** yn newid y ffordd y mae'r llywodraeth a'r GIG yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau iechyd.

Bydd **y Ddyletswydd Ansawdd** yn gwneud yn siŵr bod pobl sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried y canlynol:



- sut y bydd newidiadau yn effeithio ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd
- sut y gall newidiadau wella gwasanaethau iechyd.

Bob blwyddyn, bydd yn rhaid i'r llywodraeth a'r GIG lunio adroddiad am sut y mae eu penderfyniadau wedi gwella gwasanaethau iechyd.



Bydd yr adroddiadau ar gael i bawb eu darllen a dweud os ydynt yn credu nad yw'r penderfyniadau wedi gwella pethau.



Bydd **ail ran** y gyfraith newydd yn golygu bod yn rhaid i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau iechyd roi gwybod i chi os fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'ch gofal. Gelwir hyn yn **Ddyletswydd Gonestrwydd**.

Credwn ei bod yn bwysig bod yn onest.

Ac ymddiheuro pan aiff pethau o'u lle.

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Os ydych wedi cael niwed oherwydd bod eich doctor neu ddeintydd neu rywun sy'n eich trin chi yn yr ysbyty wedi gwneud camgymeriad, bydd yn rhaid iddynt:

- roi gwybod i chi
- ymddiheuro
- gweld beth aeth o'i le
- ceisio gwneud yn siŵr nad yw'r un camgymeriad yn digwydd eto.



**Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le,
mae'n bwysig cofio nad yw'n golygu
bod rhywun ar fai.**



Bob blwyddyn, bydd yn rhaid i sefydliadau'r GIG lunio adroddiad am beth sydd wedi mynd o'i le. A sôn am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau na fydd hynny'n digwydd eto.



Bydd yr adroddiadau ar gael i bawb eu darllen a dweud os ydynt yn credu nad yw'r GIG wedi dysgu o gamgymeriadau.

Bydd **trydedd ran** y gyfraith newydd yn gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn gallu dweud a ydynt yn hapus neu'n anhapus gyda'r gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol y maent yn eu derbyn.

Bydd yn gwneud hyn drwy greu corff newydd o'r enw **Corff Llais y Dinesydd**. Bydd yn disodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned.


Bydd Corff Llais y Dinesydd yn gallu:



- gofyn i bobl am eu barn am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- eich helpu os oes angen i chi wneud cwyn am eich gofal
- gwahodd gwirfoddolwyr i helpu gyda'i waith.

Mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol wrando ar yr hyn sydd gan Gorff Llais y Dinesydd ei ddweud am wasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn eu hardal.

Rhaid iddynt hefyd roi gwybodaeth i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol am Gorff Llais y Dinesydd.



Bob blwyddyn, bydd yn rhaid i Gorff Llais y Dinesydd lunio adroddiad am sut y mae wedi siarad â phobl ac wedi'u helpu.



Bydd yr adroddiad hwn ar gael i bawb ei ddarllen.



Bydd **pedwaredd ran** y gyfraith newydd yn rhoi'r hawl i'r llywodraeth ddweud wrth rai o sefydliadau'r GIG bod angen iddynt gael person ychwanegol ar eu Bwrdd.

Grŵp o bobl sy'n rhedeg sefydliad yw Bwrdd.



Gelwir y person ychwanegol hwn yn 'Is-gadeirydd'.

Bydd yr Is-gadeirydd yn helpu'r Bwrdd i wella gwasanaethau iechyd.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn edrych ar y gyfraith newydd o 17 Mehefin 2019 ymlaen.



Bydd yn gofyn i bobl am eu barn am y gyfraith newydd, ac o bosibl yn gwneud newidiadau i'r ffordd y bydd yn gweithio.

Gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar ei safbwynt erbyn Gwanwyn 2020.

Gallwch weld yr wybodaeth ddiweddaraf am y gyfraith newydd yn:
<http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-progress-bills/Pages/bus-legislation-progress-bills.aspx>



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gyfraith newydd gallwch anfon ebost i'r cyfeiriad hwn:
HSCQualityandEngagement@llyw.cymru